

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.30 ar 21 MEDI 2018, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts; Cadeirydd y Cyngor; Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Mr George Ashworth (o gofnod 10 ymlaen); Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies; Mr Keith Evans; Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern (trwy Skype); Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (cofnod 12).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi).

1. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd Mrs Sam Blackie, Yr Athro Robin Williams, a'r Athro Tim Woods i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Ian Fletcher, cyn Athro yn Adran y Gyfraith;
2. Dr David Green, cyn Uwch Ddarlithydd yn Adran Economeg a Marchnata Amaethyddiaeth;
3. Yr Athro Emeritws Ieuan Gwynedd Jones, cyn Athro yn Adran Hanes Cymru; a
4. Gareth Price, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol.

3. Diwrnod Encil

1. Cafodd y Cyngor Ddiwrnod Encil llwyddiannus, brynhawn yr 20 Medi a bore'r 21 Medi 2018. Ar y diwrnod cyntaf canolbwyntiwyd ar ddatblygiadau yn y Brifysgol, y gwaith ar droed i ddatblygu is-strategaethau allweddol, a chyd-destun ehangach addysg uwch. Ar yr ail ddiwrnod cafwyd cyfle i roi gwybodaeth i aelodau am eu cyfrifoldebau gan eu bod yn ymddiriedolwyr elusen, ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ar weithredu'r Rheoliadau Cyffredinol ar Warchod Data (GDPR) yn y Brifysgol. Byddai copïau o'r cyflwyniadau'n cael ei rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
2. Er na fyddai'r Cyngor yn gorfod gwneud penderfyniadau ffurfiol o ganlyniad i drafodaethau'r Diwrnod Encil, cafodd nifer o fân faterion eu codi a byddai'r rhain

yn cael eu trin ymhen amser trwy e-bost (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion eraill i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 GORFFENNAF 2018 (COU1819-003).

CYNGHORWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1819-004).

NODWYD

1. Diweddariad Ariannol (cofnod 93)

Roedd yr Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau i gadw golwg ar y cyllidebau cymhelliant er mwyn osgoi tanwario a gwneud y mwyaf o'r cronfeydd sydd ar gael i adrannau. Atgoffwyd yr aelodau na allai adrannau fwrw unrhyw arian na chafodd ei wario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

2. Adnodd Credyd Cylchdroawl (cofnod 97)

Nid oedd trafodaethau â'r benthyciwr a ffafrir eto wedi'u cwblhau a byddai copi o'r telerau ac unrhyw gyfamod a wnaed yn cael eu cyflwyno i aelodau'r Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol. Er gwaetha'r oedi, roedd y benthycwyr wedi rhoi gwybod nad oeddent yn disgwyl gofyn am newid y telerau blaenorol y cytunwyd arnynt mewn egwyddor gyda'r Brifysgol.

3. Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. **PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-005).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo naill ai gan aelodau trwy ohebiaeth, neu'n weithredol gan Gadeirydd y Cyngor yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog.

2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. penodi Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol).
3. Y mater a gymeradwywyd yn weithredol gan Gadeirydd y Cyngor oedd:
 1. penodiadau i'r canlynol ar argymhelliad y Pwyllgor Dewis: Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi); Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); a Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol).

6. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

7. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1819-006).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad ar ddenu myfyryr, materion cynllunio yn ogystal â ffactorau allanol pwysig; diweddariad ar faterion iechyd a diogelwch; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
2. Llongyfarchodd yr aelodau'r Is-Ganghellor a chydweithwyr yn dilyn y cyhoeddiad yn gynharach y bore hwnnw fod Prifysgol Aberystwyth wedi'i henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol gan *Ganllaw Prifysgolion Da'r Times a'r Sunday Times 2018*. Roedd y Brifysgol ar y brig yn y Deyrnas Gyfunol am ansawdd y dysgu yn rhifyn 2019 o'r Canllaw, pum lle'n uwch na 2018.
3. Cyhoeddodd y Brifysgol ar 13 Medi 2018, yn dilyn arolygiadau pellach a thrafodaethau manwl â phenseiri a chontractwyr, bod heriau ailddatblygu adeilad rhestredig Graddfa II Pantycelyn yn golygu nad oedd modd ailagor y neuadd ym mis Medi 2019 yn ôl y bwriad gwreiddiol. I roi cyfle i'r gwaith gael ei gyflawni'n addas, yn safonol ac o fewn i'r gyllideb, byddai'r myfyryr cyntaf bellach yn symud i mewn i'w hystafelloedd ym mis Medi 2020. Cafodd yr aelodau sicrwydd gan yr Is-Ganghellor ei bod yn cael diweddariadau wythnosol i sicrhau bod y prosiect yn symud yn ei flaen yn unol â'r amserlen ddiwygiedig.

PENDERFYNWYD

4. Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ystyried dadansoddiad manwl o adroddiadau RIDDOR a chofnodion damweiniau a fu ond y dim â digwydd mewn cyfarfod yn fuan (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

8. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1819-007).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMABer) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Trafodwyd y sylwadau a wnaed gan UMABer yng nghyswllt y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i wella adeiladwaith adeilad yr Undeb. Er bod camau'n cael eu cymryd i gyflogi pensaer i weithio gydag UMABer i nodi'r cyfleusterau sydd eu hangen ar Undeb Myfyrwyr yn yr 21ain ganrif, ni fyddai hyn yn rhwystro cyflawni gwaith hanfodol yn y cyfamser, gan gynnwys gwella mynediad i'r anabl trwy'r brif fynedfa.

PENDERFYNWYD

3. Trefnu cyfle i aelodau'r Cyngor fynd i weld adeilad Undeb y Myfyrwyr cyn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

9. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (COU1819-008).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y 10 Dangosydd Perfformiad Allweddol anariannol y cytunodd y Cyngor arnynt ar 23 Mawrth 2018. Ychydig iawn o ddiweddariadau oedd i adrodd amdanynt ers i'r Cyngor gymeradwyo'r gwerthoedd targed ar 06 Gorffennaf 2018.
2. Er bod yr aelodau'n croesawu'r dull o gyflwyno'r data yn yr adroddiad, byddai camau'n cael eu cymryd i wella'r ffurf ymhellach a chynnwys naratif ychwanegol, unedau cyfrifo, a throthwyon goddefiant. Yn y dyfodol hefyd byddai fersiynau'r adroddiad yn aildrefnu'r data i gyflwyno'r Dangosyddion sy'n is na'r targed yn gyntaf (**GWEITHREDU**: Y Pennaeth Cynllunio Dros Dro).

10. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1819-009).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol hyd at 31 Gorffennaf 2018, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.
 2. Byddai'r Archwilwyr Allanol yn dechrau ar eu gwaith maes yn ystod mis Hydref 2018, er mwyn cyflwyno datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Gorffennaf 2018 i'r Cyngor a'r is-bwyllgorau allweddol yn ystod mis Tachwedd 2018.
2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Newid Strategol; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1819-010).

NODWYD

Rhoddei'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.

3. Diweddariad ar y Cytundeb Tâl a Chynllun Pensiwn USS

NODWYD

1. Rhoddwyd y cytundeb tâl cyflog byw am 2018-19, a gafodd ei negodi'n genedlaethol, ar waith gan y cyflogwyr, gan gynnwys PA. Roedd yr undebau llafur nawr felly'n holi barn eu haelodau ar y potensial am weithredu diwydiannol. Roedd y setliad tâl o fewn i'r hyn y caniatwyd ar ei gyfer yng nghyllideb y Brifysgol.
2. Ar 13 Medi, cyhoeddwyd adroddiad cyntaf y Cyd-banel Arbenigwyr (JEP) a sefydlwyd gan *Universities UK* ac Undeb y Prifysgolion a Cholegau yn dilyn y gweithredu diwydiannol diweddar ynglŷn â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Byddai copi o'r adroddiad yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
3. Roedd adroddiad y panel yn argymhell cynnydd bach i gyfraniadau'r cyflogwyr a'r gweithwyr i'r Cynllun, a byddai'r Brifysgol yn cael ei gwahodd i ymateb i ymgynghoriad o'r cyflogwyr i'w gynnal yn ystod mis Hydref 2018.

PENDERFYNWYD

4. Dirprwyo cymeradwyo ymateb arfaethedig y Brifysgol i'r ymgynghoriad ar argymhelliad y Panel i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ar 04 Hydref 2018 (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
5. Y dylai'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad adolygu rhagolygon ariannol y Brifysgol am y pum mlynedd nesaf gan fod y darlun bellach yn gliriach ynglŷn â'r setliad tâl a'r canlyniad a argymhellwyd i'r cynllun USS (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

11. FFRAMWAITH TALIADAU STAFF UWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-011).

NODWYD

1. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol Cod Taliadau Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar gyfer aelodau Staff Uwch mewn Addysg Uwch ym mis Mehefin 2018. Er mwyn sicrhau bod arferion y Brifysgol ynghylch taliadau staff uwch yn unol â'r arfer gorau a nodir yn y Cod Taliadau, roedd newidiadau'n cael eu cynnig i gylch gorchwyl Pwyllgor Taliadau'r sefydliad, ac roedd Fframwaith Taliadau newydd wedi'i ddatblygu.
2. Byddai'r Fframwaith Taliadau a gynigiwyd yn ystyried egwyddorion allweddol Cod Taliadau'r CUC, ac yn gosod paramedrau allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â thâl staff uwch.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Pwyllgor Taliadau, a drafft y Fframwaith Taliadau i Staff Uwch (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

12. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (COU1819-012).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn i fireinio'r cynigion ymhellach, a'r prif gerrig milltir y byddai angen eu cyrraedd wrth i'r Brifysgol baratoi i gyflwyno cais Cam 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystod y Gwanwyn 2019.
2. Cyn cyflwyno cais Cam 2, byddai cyfarfod adolygu interim yn cael ei gynnal gyda Swyddogion Cronfa'r Loteri yn ystod mis Hydref 2018. Byddai'r adolygiad interim yn rhoi cyfle i sicrhau bod y Gronfa'n fodlon â'r ffordd mae'r cynigion yn datblygu, a byddai hyn yn ei dro yn hwyluso cyflwyno cais cynllunio a dechrau'r ymgynghori cyhoeddus.

PENDERFYNWYD

3. Rhoi diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

13. CAMPWS YMCHWIL AC ARLOESIDD ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1819-013).

NODWYD

1. Ar 27 Ebrill 2018, gwrthododd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gais gan Willmott Dixon i gynnwys gwarant ariannol gan y Brifysgol yng nghontractau adeiladu cwmni AIEC Cyf.
2. Ar ôl trafod pellach â Willmott Dixon dros yr haf roedd gwarant sicrwydd diwygiedig o blaid PA gyda geiriad camu i mewn diwygiedig yn cael ei gynnig. Nodai'r adroddiad a sail resymegol am argymell y ddarpariaeth camu i mewn. Cafodd yr aelodau eu sicrhau y dysgir gwersi o'r newid hwyr i'r sefyllfa ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD

3. Cytuno y dylid cynnwys cymal camu i mewn yn rhan o'r ddogfen gwarant sicrwydd ar gyfer cytundeb adeiladu cwmni AIEC Cyf. (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

14. DATGANIAD A MATRICS ARCHWAETH RISG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-014).

NODWYD

1. Yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Reoli Risg, gwahoddir y Cyngor i adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg yn ei gyfarfod llawn cyntaf bob blwyddyn academaidd.

2. Tan i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd gael ei gwblhau, roedd yr Is-Ganghellor yn argymhell cadw'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg fel y mae ar hyn o bryd. Byddai camau priodol yn cael eu cymryd i gyflwyno diwygiadau lle byddai angen yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

PENDERFYNWYD

3. Cadw'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg fel y mae ar hyn o bryd (**GWEITHREDU:** Pennaeth Datblygu Strategol).

15. DIWYGIADAU I ORDINHADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-015).

NODWYD

1. Ar 06 Gorffennaf 2018, cytunodd y Cyngor ar ddiwygiadau i nifer o Ordinhadau yn gysylltiedig â phrosesau Adnoddau Dynol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
2. Ar ôl trafodaethau dilynol â chynrychiolwyr Undebau Llafur datblygwyd paragraff cyffredinol ynglŷn â 'Y Gymraeg - Hawliau Gweithwyr'. Byddai'r testun newydd hwn yn osgoi'r angen i wneud y diwygiadau y cytunodd y Cyngor iddynt yn flaenorol, a oedd yn golygu newidiadau mwy sylweddol i gyrraedd yr un nod.

PENDERFYNWYD

3. Adfer geiriad yr Ordinhadau Adnoddau Dynol dan sylw fel yr oedd cyn cyfarfod y Cyngor ar 06 Gorffennaf, 2018, a chynnwys yr adran gyffredinol 'Y Gymraeg - Hawliau Gweithwyr' ar ddiwedd Ordinhadau Adnoddau Dynol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

16. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ynglŷn â'r canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor ((COU1819-016);
2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1819-017); a
3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredinol (COU1819-018).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd er gwybodaeth.